Senedd Cymru
**Finance Committee**

# **Gwybodaeth i Ymgeiswyr:** Archwilydd Cyffredinol Cymru

Medi 2025

# Cyflwyniad



Rwy'n falch iawn eich bod yn ystyried rôl fel Archwilydd Cyffredinol Cymru. Fel Cadeirydd y Bwrdd, pleser o'r mwyaf yw cynnig y cyfle hwn i arwain sefydliad sy'n chwarae rhan hanfodol wrth ddiogelu uniondeb cyllid cyhoeddus yng Nghymru.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn llais annibynnol hanfodol sy'n rhoi adborth gwrthrychol, sydd wedi'i seilio ar dystiolaeth, ar y ffordd y caiff arian cyhoeddus ei wario ar adeg pan fo pwysau parhaus ar gyllid cyhoeddus. Mae'r sicrwydd y mae'r rôl hon yn ei darparu yn ganolog i'r camau a gymerir i sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol er budd pobl Cymru.

Mae gennym weithlu hynod fedrus ac ymroddedig sy'n cefnogi'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni gwaith craff, uchel ei barch. O ganlyniad, mae Archwilio Cymru yn sefydliad sydd wedi'i barchu'n fawr nid yn unig gan randdeiliaid yng Nghymru ond gan unigolion a sefydliadau ledled y DU a thu hwnt.

Caiff yr Archwilydd Cyffredinol ei gefnogi i'r carn gan Fwrdd sy'n cydnabod heriau'r rôl ac sydd wedi ymrwymo i gefnogi'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei swyddogaethau.

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu cyfrifoldebau a disgwyliadau'r rôl, ac rwy'n gobeithio y bydd yn eich ysbrydoli i ystyried gwneud cais am y cyfle unigryw hwn a chyfrannu at gynnal cryfder a hygrededd ein system archwilio cyhoeddus.

Dr Ian J Rees, Cadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru

# Cefndir

Penodiad y Goron yw Archwilydd Cyffredinol Cymru (ACC) yn dilyn enwebiad gan y Senedd o dan Adran 2 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013. Gwneir y penodiad am un tymor o wyth mlynedd ac ni ellir ei adnewyddu. Bydd tymor y deiliad presennol, Adrian Crompton, yn dod i ben ar 20 Gorffennaf 2026, ac felly bydd penodiad yr ymgeisydd llwyddiannus yn dechrau ar 21 Gorffennaf 2026.

Er mwyn hwyluso atebolrwydd democrataidd, rhaid i'r cyhoedd a'u cynrychiolwyr gael gwybod yn ddigonol am weithgareddau'r llywodraeth a'i defnydd o arian cyhoeddus. Mae archwiliad annibynnol o weithgareddau'r llywodraeth a'r defnydd o arian cyhoeddus gan y rhai sy'n gyfrifol am stiwardiaeth y cronfeydd hynny yn elfen hanfodol o'r wybodaeth sydd ei hangen.

Mae archwilwyr allanol yn archwilio'n annibynnol a yw arian cyhoeddus yn cael ei reoli'n ddoeth ac yn briodol. Mae archwilio'r sector cyhoeddus yn golygu mwy na barn ar y cyfrifon. Mae hefyd yn ymdrin â materion fel rheoleiddrwydd (a yw arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio at ddibenion a gymeradwywyd), priodoldeb (sut mae busnes cyhoeddus yn cael ei gynnal) a gwerth am arian (economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran y defnydd o adnoddau).

Mae gwaith yr Archwilydd Cyffredinol yn cefnogi'r Senedd, yn enwedig drwy ddarparu adroddiadau archwilio ar gyrff cyhoeddus. Mae cyrff o'r fath yn cynnwys Llywodraeth Cymru, llywodraeth leol a'r GIG yng Nghymru. Lle bo hynny'n briodol, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cydgysylltu gwaith â chyrff adolygu allanol eraill, fel Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol.

Os oes gennych chi unrhyw ymholiadau ynghylch y rôl, y broses recriwtio, neu os oes angen cyngor arnoch ar y ffordd orau i gyflwyno’ch cefndir, eich sgiliau a’ch profiad yn eich cais, cysylltwch â: Ellie.Dugdale@saxbam.com

## Archwilydd Cyffredinol Cymru

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn ddeiliad swydd statudol sy'n gyfrifol am amrywiaeth o swyddogaethau archwilio, gan gynnwys archwilio cyfrifon y mwyafrif o gyrff cyhoeddus yng Nghymru. Mae pŵer gan y swydd, hefyd, i gynnal archwiliadau gwerth am arian. Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru a chyrff archwiliedig eraill ac mae gan y rôl ddisgresiwn llwyr ynghylch sut y caiff swyddogaethau'r swydd honno eu harfer, yn ddarostyngedig i'r safonau a'r egwyddorion y byddai disgwyl i ddarparwr proffesiynol arbenigol gwasanaethau cyfrifyddu neu archwilio eu dilyn. Ar hyn o bryd, Archwilydd Cyffredinol Cymru sy'n gyfrifol am archwilio oddeutu £28 biliwn o wariant cyhoeddus yng Nghymru.

## Archwilio Cymru[1]

Mae Archwilio Cymru yn cyflogi oddeutu 280 o staff a'r Archwilydd Cyffredinol yw ei Brif Weithredwr a'i Swyddog Cyfrifyddu. Ei gyllideb ar gyfer 2025-26 yw £28.4 miliwn.

Mae'r Senedd yn gyfrifol am graffu ar gyllideb Archwilio Cymru ac yn goruchwylio ei llywodraethu. Ar hyn o bryd, Pwyllgor Cyllid y Senedd sy'n ymgymryd â hyn.

Mae'r Strategaeth Pum Mlynedd yn nodi gweledigaeth a ffocws Archwilio Cymru ar gyfer 2022-2027. Mae gwybodaeth am y diwylliant a gweithio i Archwilio Cymru ar gael ar wefan Archwilio Cymru.

[1] Gyda'i gilydd, mae'r Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahânl, yn gweithredu o dan yr enw Archwilio Cymru.

## Manyleb y Person

Mae'r adran hon yn nodi'r meini prawf a'r cymwyseddau personol hanfodol a dymunol sy'n angenrheidiol i ymgymryd â gwaith Archwilydd Cyffredinol Cymru. Dylai ymgeiswyr ddarparu tystiolaeth bod ganddynt y sgiliau a'r profiad perthnasol i fodloni'r gofynion a nodir isod.

## Meini Prawf Hanfodol

- Rhaid i'r ymgeisydd llwyddiannus ddangos: dealltwriaeth ddatblygedig iawn o faterion archwilio cyhoeddus (gan gynnwys ei rôl strategol mewn craffu ac atebolrwydd); profiad o gynnal a gwella safonau atebolrwydd ariannol ac uniondeb ar lefel prif swyddog, cyfarwyddwr neu aelod o fwrdd o fewn sefydliad ac o ddarparu cyngor i eraill ar faterion o'r fath;
- profiad fel uwch arweinydd yn rheoli sefydliad cymhleth gyda chyllideb gwerth miliynau o bunnoedd a nifer sylweddol o staff gyda set amrywiol o sgiliau;
- profiad o ddatblygu gweledigaeth strategol a bod yn atebol am ei gweithredu;
- profiad o weithio ar y cyd â Bwrdd, gan gynnwys aelodau anweithredol, a chefnogi ei swyddogaethau llywodraethu;
- dealltwriaeth o Egwyddorion Nolan a safonau moesegol, gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol ar gyfer Archwilwyr, ac ymrwymiad iddynt;
- dealltwriaeth o'r system lywodraeth ddatganoledig a lleol yng Nghymru a'r cyd-destun gwleidyddol y mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn gweithredu ynddo;
- dealltwriaeth o gyfle cyfartal a gallu profedig i hyrwyddo amrywiaeth, cydraddoldeb a chynhwysiant a chanfod a herio arferion gwahaniaethol, ac ymrwymiad i hynny;
- gwerthfawrogiad o bwysigrwydd yr amgylchedd dwyieithrwydd y mae cyrff cyhoeddus yng Nghymru yn gweithio ynddo; a
- phrofiad o weithredu gyda phroffil cyhoeddus personol a'r gallu i reoli perthnasoedd â'r cyfryngau.

## Meini Prawf Dymunol

Yn ogystal, byddai'n ddymunol i ymgeiswyr ddangos y canlynol:

- gallu profedig i gyflawni gwaith archwilio'r sector cyhoeddus ar lefel uwch;
- profiad o reolaeth ariannol strategol;
- profiad o arwain archwiliad gwerth am arian ac archwilio datganiadau ariannol; ac
- y gallu i gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg.

## Cymwyseddau

Rhaid i'r ymgeisydd llwyddiannus feddu ar allu profedig i:

- ddarparu arweinyddiaeth strategol a dangos rheolaeth effeithiol o sefydliad sector cyhoeddus proffil uchel;
- cynrychioli, dylanwadu a thrafod yn effeithiol ar lefel uwch i sicrhau bod eu Swydd a'u sefydliad yn cael eu hystyried yn gredadwy, awdurdodol, atebol a thryloyw;
- dangos crebwyll da, uniondeb personol, annibyniaeth, cysondeb a phenderfynoldeb wrth ymdrin â materion sensitif a phwysig, fel y rhai a allai ddeillio o archwiliadau;
- meithrin perthnasoedd gwaith effeithiol ac ymddiriedaeth gyda gwleidyddion a/neu uwch swyddogion;
- datblygu a chyfleu gweledigaeth strategol, nodau ac amcanion y sefydliad yn effeithiol;
- gweithio gyda Bwrdd i ddatblygu hygrededd, atebolrwydd a thryloywder gwaith ei sefydliad;
- canolbwyntio ar wasanaeth o ansawdd hirdymor tra'n cydbwyso gofynion rhanddeiliaid allweddol sy'n aml yn gwrthdaro neu'n cystadlu;
- arwain ar newid a datblygiad sefydliadol, gan gynnwys drwy ddefnyddio technolegau sy'n dod i'r amlwg; ac
- ysbrydoli hyder fel Swyddog Cyfrifyddu neu gyfwerth.

Wrth gyflawni'r cymwyseddau hyn, bydd angen i'r ymgeisydd llwyddiannus:

- fod yn weledigaethol, gan adeiladu ac ysbrydoli gwaith tîm i gyflawni gweledigaeth y sefydliad;
- feddwl yn strategol a blaengar;
- fod yn feddyliwr ac yn ysgogydd cadarnhaol gydag effaith bersonol uchel;
- fod yn benderfynol ac yn gynhwysol;
- allu addasu a bod yn arweinydd newid;
- allu grymuso, mynnu perfformiad uchel a chydnabod llwyddiant;
- fod yn gyfathrebwr gwych, yn gallu meithrin teyrngarwch ac ymddiriedaeth; a
- bod yn hunan-ymwybodol, emosiynol ddeallus, a diplomyddol.

# Telerau'r Penodiad

Bydd y penodiad yn cael ei wneud gan Ei Fawrhydi y Brenin ar enwebiad Senedd Cymru (ar ôl ymgynghori â chynrychiolwyr cyrff llywodraeth leol).

O dan adran 6 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, ni ddylid ystyried bod Archwilydd Cyffredinol Cymru yn dal swydd o dan Ei Fawrhydi nac yn arfer unrhyw swyddogaethau ar ran y Goron.

## Tâl

Mae'r swydd yn denu cyflog o £165,871. Caiff y cyflog ei gynyddu ar ddyddiad dechrau'r penodiad (21 Gorffennaf 2026), ac yn flynyddol ar y dyddiad hwnnw, yn ôl y newid canrannol amcangyfrifedig yn y data diweddaraf o'r Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion ar yr enillion canolrifol gros blynyddol ar gyfer swyddi cyflogeion llawn amser yng Nghymru, fel y'u cyhoeddir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol, yn amodol ar derfyn isaf ac uchaf o 0 y cant a 3 y cant.  Ni fydd unrhyw elfen o'r cyflog yn seiliedig ar berfformiad. Mae'r cyflog yn ddarostyngedig i ddidyniad Treth Incwm a chyfraniadau Yswiriant Gwladol.

Mae swydd Archwilydd Cyffredinol Cymru yn bensiynadwy drwy aelodaeth o drefniadau Cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil ac yn unol â thelerau'r Cynllun hwnnw. Ni thelir cyfraniadau cyflogwr i unrhyw gynllun pensiwn arall.

## Hyd

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gwasanaethu un tymor wyth mlynedd yn y swydd, ac nid yw'n adnewyddadwy.

O dan adran 3 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, caiff Ei Fawrhydi ryddhau Archwilydd Cyffredinol Cymru o'i swydd cyn diwedd cyfnod y penodiad, ar gais Archwilydd Cyffredinol Cymru neu ar sail feddygol. Gellir tynnu Archwilydd Cyffredinol Cymru o'i swydd hefyd ar sail camymddygiad, ond dim ond os yw'r Senedd wedi pasio penderfyniad i'r perwyl hwnnw gydag o leiaf dwy ran o dair o Aelodau o'r Senedd yn pleidleisio o blaid.

## Lleoliad

Mae staff Archwilio Cymru wedi'u lleoli mewn sawl swyddfa ledled Cymru a bydd yn ofynnol i Archwilydd Cyffredinol Cymru fynd i gyfarfodydd yn bersonol yn rheolaidd yn y Senedd, Bae Caerdydd. Bydd achlysuron pan fydd disgwyl i ddeiliad y swydd deithio ledled Cymru ac, yn llai aml, y tu hwnt.

## Oriau gwaith

Mae natur swyddogaethau Archwilydd Cyffredinol Cymru yn un lle bydd angen ymrwymiad llawn amser. Y person a benodir fydd yn bersonol atebol am gyflawni swyddogaethau'r swydd a hwy fydd i benderfynu pa oriau i’w gweithio a sut y dylid trefnu'r amser hwnnw.

## Lwfans adleoli

Bydd hawl gan yr ymgeisydd llwyddiannus i hawlio lwfans adleoli o hyd at £8000 am gostau'n ymwneud â symud preswyl yn barhaol. Bydd y cymorth ar gael ar ffurf ad-daliad treuliau rhesymol a achosir mewn gwirionedd ac o reidrwydd. Bydd rheolau a chanllawiau CThEF ar 'gostau cymwys' yn cael eu defnyddio wrth bennu hawliau.

## Gwyliau ac absenoldeb arall

Mae gan yr Archwilydd Cyffredinol rôl bwysig fel Prif Weithredwr Swyddfa Archwilio Cymru, gyda chyfrifoldebau dros ddiwylliant, arweinyddiaeth a pherfformiad y sefydliad.

Cynigir y bydd Archwilydd Cyffredinol Cymru yn cymryd gwyliau yn unol â threfniadau staff Swyddfa Archwilio Cymru.  Bydd tâl yn ystod absenoldeb oherwydd salwch hefyd yn unol â threfniadau ar gyfer staff Swyddfa Archwilio Cymru.

Bydd Archwilydd Cyffredinol Cymru yn gyfrifol am adrodd ar drefniadau gwyliau ac absenoldeb arall i Fwrdd Swyddfa Archwilio Cymru bob blwyddyn.

## Anghymhwyso Statudol a Chyfyngiadau Ar Ôl Penodi i’r Swydd

Mae adran 4 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 yn anghymhwyso unrhyw un rhag bod yn Archwilydd Cyffredinol Cymru os yw:

- yn aelod o Senedd Ewrop, Tŷ'r Cyffredin, Tŷ'r Arglwyddi, Senedd yr Alban neu Gynulliad Gogledd Iwerddon;
- yn ddeiliaid unrhyw swydd y gellid penodi person iddi, neu y gellid ei argymell neu ei enwebu i’w penodi iddi, gan neu ar ran y Goron, y Senedd neu Gomisiwn y Senedd,
- yn gyflogedig gan Swyddfa Archwilio Cymru.

(Bydd gofyn i'r ymgeisydd llwyddiannus ymddiswyddo o unrhyw rolau anghymhwyso fel amod penodi.)

Dylai ymgeiswyr gyfeirio at adrannau 4 a 5 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 i gael manylion llawn am anghymhwyso statudol a chyfyngiadau ar ôl penodi i'r swydd. Mewn perthynas ag adran 5(3), at ddibenion adran 5(2), mae Pwyllgor Cyllid y Senedd wedi penderfynu peidio â phennu gofynion pellach ar gyn-Archwilydd Cyffredinol heblaw am y rhai a osodir eisoes gan adran 5.

Dylai ymgeiswyr hefyd fod yn ymwybodol o baragraffau 2.56 i 2.58 o Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol 2024 yn ymwneud â rolau blaenorol mewn cyrff a archwilir gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

## Gweithgareddau Gwleidyddol ac Allanol

Yn ogystal â'r anghymhwyso statudol a'r cyfyngiadau ar ôl penodi, er mwyn sicrhau bod swyddogaethau Archwilydd Cyffredinol Cymru yn gyfreithlon o ran ystyried y safonau a'r egwyddorion y byddai disgwyl i ddarparwr proffesiynol arbenigol gwasanaethau cyfrifyddu neu archwilio eu dilyn, rhaid i Archwilydd Cyffredinol Cymru sicrhau bod eu gweithgareddau allanol ac amgylchiadau eraill yn gydnaws â gofynion Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol a safonau proffesiynol eraill sy'n berthnasol.

# Y Broses Ddethol

Y Senedd fydd yn cynnal y broses o ddethol y person a enwebir ar gyfer y penodiad gan ei Fawrhydi.

Y bwriad yw y bydd y panel dethol yn cynnwys Cadeirydd Pwyllgor Cyllid y Senedd, Cadeirydd Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus y Senedd, Cadeirydd Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru ac arbenigwr technegol annibynnol.

Bydd y panel penodi yn cymharu'r ceisiadau yn erbyn y meini prawf hanfodol a dymuno a amlinellir ym manyleb y person.

Mae Saxton Bampfylde Ltd yn gweithredu fel cynghorydd i'r Senedd ar y penodiad hwn.

Bydd Saxton Bampfylde yn cyfarfod â rhestr hir o ymgeiswyr ac yna bydd y panel yn cytuno ar restr fer o bobl i'w gwahodd i gyfweliad, lle bydd ymgeiswyr yn cael eu hasesu yn erbyn y cymwyseddau a nodir yn y fanyleb person.

Cynhelir cyfweliadau ffurfiol ym mis Ionawr 2026 yn adeiladau'r Senedd ym Mae Caerdydd.

Mae pob cais yn ddienw hyd at y cam cyfweliad er mwyn osgoi rhagfarn.

Yna bydd y Pwyllgor Cyllid a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus yn cynnal gwrandawiad ar y cyd, cyn enwebu, gyda'r ymgeisydd a argymhellir gan y panel dethol. Cynhelir y gwrandawiad yn gyhoeddus a bydd Aelodau'r pwyllgorau yn gallu gofyn cwestiynau i'r ymgeisydd er mwyn cadarnhau addasrwydd ar gyfer y penodiad, gan dalu sylw arbennig i'r berthynas waith agos y bydd angen ei meithrin rhwng y pwyllgorau a'r ymgeisydd a ffefrir. Mae'n ofynnol i'r ymgeisydd a ffefrir gytuno y bydd ei enw / ei henw ar gael i'r cyhoedd. Ni fydd enwau'r ymgeiswyr eraill yn cael eu rhyddhau.

Yna bydd y Pwyllgor Cyllid yn cynnig yr ymgeisydd a ffefrir i sesiwn o'r Cyfarfod Llawn yn y Senedd er mwyn cytuno ar yr enwebiad i'w wneud i Ei Fawrhydi.  Ar ôl cael ei enwebu / ei henwebu gan y Senedd, bydd enw'r ymgeisydd a ffefrir yn cael ei gyflwyno i'w gymeradwyo gan Ei Fawrhydi.

Sut i wneud cais

- I wneud cais am y swydd, anfonwch e-bost at Belinda Beck, Belinda.beck@saxbam.com, gan ddyfynnu'r cod QBVSA, gyda CV, datganiad cefnogi, ffurflen GDPR, ffurflen Cyfle Cyfartal a ffurflen Gymhwysedd (gellir canfod y ffurflenni ar wefan Saxton Bampfylde's website – www.saxbam.com/appointments drwy ddefnyddio'r cyfeirnod QBVSA).
- Dylid derbyn ceisiadau erbyn hanner nos ddydd Gwener 31 Hydref 2025. Os oes gennych chi unrhyw ymholiadau am y broses recriwtio a'ch cymhwysedd ar gyfer y rôl, cysylltwch â Ellie.Dugdale@saxbam.com.
- Cysylltwch â ni am sgwrs os oes angen unrhyw addasiadau rhesymol arnoch ar gyfer unrhyw ran o'r broses recriwtio hon. Gallwn hefyd drafod pa addasiadau yr hoffech iddynt gael eu gwneud petaech yn cael eich penodi er mwyn i chi allu cyfranogi'n llawn. Anfonwch e-bost at Ellie.Dugdale@saxbam.com cyn gynted â phosibl a byddwn yn cysylltu â chi i drafod gofynion ac unrhyw gwestiynau sydd gennych.

## Hysbysiad Preifatrwydd

Mae hysbysiad preifatrwydd y Senedd mewn perthynas â Phenodiadau Cyhoeddus ar gael ar wefan y Senedd.

## Amrywiaeth a Chynhwysiant

*Croesewir ceisiadau gan ystod amrywiol o bobl, o bob cefndir a chyda llawer o sgiliau, profiadau a safbwyntiau gwahanol. Rydym yn arbennig o awyddus i annog ceisiadau gan bobl anabl a phobl o gefndiroedd ethnig lleiafrifol. Caiff pob penodiad ei wneud ar sail teilyngdod.*

## **Cyd-gynllun Cydraddoldeb Strategol** Archwilio Cymru